WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Please contact us in Welsh or English.

Cysylltwch â ni'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 OJJ

**Cyfeirnod:** 269A2017-18

**Dyddiad:** 17 Tachwedd 2017

Annwyl Gynghorydd Lloyd Davies

# Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2016-17

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau.

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- sefydlu systemau rheoli mewnol i sicrhau bod trafodion ariannol yn rheolaidd ac yn gyfreithlon a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifo cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i ddiogelu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifo;

- adolygu trefniadau'r Cyngor i ddiogelu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifo yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 22 Medi 2017 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifo, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol yr Awdurdod a’r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Adroddwyd wrth aelodau'r Awdurdod Tân am y materion allweddol a oedd yn deillio o archwiliad y cyfrifon ar 18 Medi drwy fy *Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol*[1].

Y materion archwilio pwysicaf oedd:

- Roedd y datganiadau cyfrifo drafft o ansawdd gwael, heb fod yn destun adolygiad o safon, ac ni chawsant eu cefnogi gan bapurau gwaith ddigon manwl. O ganlyniad i’r materion hyn yn ogystal â diffyg cysoni incwm a gwariant grantiau, cafodd y datganiadau cyfrifo drafft eu hailddatgan yn helaeth.
- Er gwaethaf yr argymhellion ar gyfer gwellianau o’n harchwiliad 2015-16, roedd nifer o faterion arwyddocaol o hyd yn ymwneud â datganiadau cyfrifo 2016-17, yn enwedig cynnal a chadw’r gofrestr asedau a manylion annigonol ar yr asedau unigol a ddosbarthwyd fel offer gweithredol a TG.
- Roedd y Gronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân yn cyfrifo am daliadau pensiwn yn ymwneud â Mai 2016 - Ebrill 2017 yn y datganiadau cyfrifo 2016-17 yn lle’r rheini sy’n ymwneud ag Ebrill 2016 - Mawrth 2017. O ganlyniad, roedd camddatganiadau na addaswyd am yn y datganiadau cyfrifo. Fodd bynnag, ni chafodd rhain effaith ar farn yr achwiliad.

Rhoddais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad y cyfrifon wedi ei gwblhau ar 22 Medi 2017.

## Rwyf yn fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn eu lle i ddiogelu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i ddiogelu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle mae effeithiolrwydd y trefniadau hyn eto i gael ei ddangos neu lle y gellid gwneud gwelliannau, pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

[1] http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337891/10ii-archwiliad-or-datganiadau-ariannol.pdf

O ganlyniad i'r materion a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad ac adroddwyd i'r Awdurdod ar 18 Medi 2017, bu rhaid inni wneud swm sylweddol o waith ychwanegol. Roedd y materion hyn yn canolbwyntio ar ansawdd gwael cyffredinol y datganiadau cyfrifo a'r cofnodion ategol. Oherwydd hynny, codir ffioedd o £5,600 yn ychwanegol at y ffi o £45,000 a amcangyfrifwyd ac a nodwyd yng Nghynllun yr Archwiliad Blynyddol ar gyfer 2016-17. Amcangyfrifir y ffi ar gyfer 2017-18 o fewn paramedrau y raddfa ffioedd ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub, sydd wedi ei hegluro yng *Nghynllun Ffioedd 2017-18* Swyddfa Archwilio Cymru sydd wedi ei gyhoeddi.

Yn gywir



**Mark Jones**
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc. Simon Smith, Prif Swyddog Tân
Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân
Ken Finch, Trysorydd a Swyddog Adran 151